Atodiad 1

Detholiad o'n 'Canfyddiadau'

Corff perthnasol: Cyngor Cymuned Saundersfoot

Dyddiad yr Adroddiad: 03/03/2023

Testun: Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch

Cyfeirnod Achos: 202202280

Derbyniodd yr Ombwdsmon gwyn gan aelod o'r cyhoedd ("yr achwynydd") bod Aelod o Gyngor Cymuned Saundersfoot ("y Cyngor") wedi methu cadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Etholedig.

Roedd yn honedig fod Aelod wedi cysylltu â'r achwynydd, ac wedi ymddwyn yn fygythiol tuag ato am fater yn ymwneud â pharcio. Roedd yr achwynydd yn honni fod yr Aelod wedi bwlio ac ymddwyn yn fygythiol, a defnyddiodd ei safle i'w fychanu a'i waradwyddo.

Dywedodd yr achwynydd fod yr Aelod wedi ymddwyn mewn ffordd oedd yn bwlio ac yn fygythiol. Roedd yr Aelod yn cydnabod y bu cyswllt rhwng y ddau, ond dywedodd na wnaeth ymddwyn yn wael. Nid oes tyst arall na thystiolaeth Teledu Cylch Caeëdig ar gael. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y ddau barti, nid oedd y wybodaeth na'r dystiolaeth ar gael yn awgrymu y dylid ffafrio un safbwynt dros y llall. Felly, yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth annibynnol o'r digwyddiad, nid oedd yr Ombwdsmon yn gallu cadarnhau a oedd ymddygiad yr Aelod yn awgrymu ei fod wedi torri rheolau'r Cod Ymddygiad.

Byddai ymchwiliad pellach i'r mater yn annhebygol o gasglu unrhyw wybodaeth a fyddai'n newid cydbwysedd y dystiolaeth ar gael, felly nid oedd yn gymesur, nac er budd y cyhoedd i barhau â'r ymchwiliad.